

University of Wales Trinity Saint David
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

TAR Cynradd



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

*Sut y gallwn ni wella ymglymiad plant o fewn
gwersi drwy ddefnyddio canmoliaeth ar lafar
mewn ystafell dosbarth cyfnod sylfaen?*

ECPP7001

1800189

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Adolygiad llenyddiaeth	4
Methodoleg.....	7
<i>Dulliau ymchwil 1</i>	8
<i>Dulliau ymchwil 2</i>	9
<i>Cyfranogwyr</i>	10
Materion Moeseg.....	10
Astudiaeth gwers 1.....	11
Astudiaeth gwers 2.....	13
Astudiaeth gwers 3.....	14
Canfyddiadau.....	16
Casgliad.....	20
Argymhellion	22
Cyfeiriadau	23

Cyflwyniad

Y mater a oedd â diddordeb i mi oedd effeithiolrwydd canmolïaeth ar lafar o fewn yr ystafell dosbarth oherwydd yn fy ysgol, rwyf wedi gweld nifer o wahanol ddulliau o ganmolïaeth sydd wedi bod yn effeithiol. Serch hynny, mae'n amlwg y byddai gwahanol ddulliau yn fuddiol i wahanol oeddrannau. O fewn y cyfnod sylfaen, gweler bod yna dulliau gwahanol o ganmolïaeth yn cael ei gweithredu i'r dulliau sydd yn cael ei gweithredu o fewn cyfnod allweddol 2. Mae fy ysgol yn ysgol arloesol yn Ne Cymru gyda 520 o blant o'r oedran 3 i 11 sydd yn dilyn pedwar diben o'r adroddiad dyfodol llwyddiannus. Mae'r ysgol felly am helpu'r plant i fod yn gyfranwyr creadigol ac i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog er enghraifft, (Donaldson, 2015). Cafodd adeilad yr ysgol ei adeiladu yn 2017 ac felly mae gan bob adran ardaloedd addysgu mawr ychwanegol megis llyfrgelloedd, ardaloedd TGCH a gweithleoedd tawel er enghraifft. Nod yr ysgol yw annog y disgyblion i ddatblygu yn academaidd, yn foesol, yn esthetig ac yn ysbrydol gan hefyd creu cyfleoedd iddynt. Byddai hyn yn galluogi iddynt fod yn unigolion iach, hunan cynaledig sydd yn aelodau o gymdeithas ddwyieithog.

Yn fy nosbarth, mae yna 33 o blant o'r oedran tri i bedwar. Mae dosbarth fy mhartneriaid yn cynnwys 21 a 32 o blant o'r oedran chwech i saith. Roedd yn bwysig felly i gynnal ymchwil a oedd yn addas ar gyfer y ddau ddosbarth. Trafodais hyn gyda fy mhartneriaid ac i gychwyn, roeddwn wedi ystyried ymchwilio o fewn y maes dulliau asesu ar gyfer dysgu, ond ar ôl ystyried addasrwydd hyn i'r tri dosbarth, penderfynon ni canolbwyntio ar ganmolïaeth. Ein cwestiwn ymchwil felly yw 'Sut y gallwn ni wella ymglymiad plant o fewn gwrsi drwy ddefnyddio canmolïaeth ar lafar mewn ystafell dosbarth cyfnod sylfaen?' Mae'r cwestiwn ymchwil yma felly yn targedu'n benodol ar faes ymchwil sydd o werth i'n dosbarthiadau. Mae'n amlwg bod canmolïaeth yn ddull sydd yn cael ei ddefnyddio yn y ddau ddosbarth ac felly dyma ddiben ein hymchwil. Ar gyfer fy nosbarth mae hyn golygu defnydd o ganmolïaeth yn ystod amser ar y mat, yn ystod y prif weithgaredd, ar ôl i'r plant cyflawni eu gwaith a hefyd yn ystod y diweddsglo. Mae'n amlwg felly bod yna nifer o

gyfleoedd i ddefnyddio canmolïaeth. Byddwn felly yn creu dadansoddiad o ba mor effeithiol yw defnyddio canmolïaeth ar lafar ar ymglymiad plant yn ystod gwersi.

Adolygiad llenyddiaeth

Awgryma Aveyard (2010, t.2) mai adolygiad llenyddiaeth yw'r astudiaeth gynhwysol a dehongliad o lenyddiaeth sy'n gysylltiedig â phwnc a ddewiswyd. Nod yr adolygiad llenyddiaeth hwn yw darparu amrywiaeth o lenyddiaeth gyfredol sy'n ymwneud â sut y gallwn ni wella ymglymiad plant o fewn gwersi drwy ddefnyddio canmolïaeth ar lafar mewn ystafell dosbarth cyfnod sylfaen. Ymchwiliais ymhellach i hyn drwy graffu a darllen llyfrau, erthyglau cyfnodolion, adroddiadau llywodraeth a deunydd ar-lein eraill er mwyn casglu amrywiaeth o lenyddiaeth briodol ar y pwnc. Dangosodd hyn i mi fod canmolïaeth yn bwerus iawn i ddysgu, (Ellis a Tod, 2015: t.56). Yn ogystal â hyn, mae canmolïaeth yn cael effaith mawr ar gyflawniad ac ymglymiad plant a dywed Petty (2006: t.85) maent yn ffactor sydd yn cael yr effaith mwyaf ar ddysgu. Mae hyn yn gytûn gyda Lambert a Lines (2000: t.132) sydd yn nodi bod canmolïaeth yn gallu bod yng ngrym cadarnhaol sydd yn cael ei ystyried i fod yn gymhelliant gan athrawon. Awgrymir hyn felly bod canmolïaeth effeithiol yn helpu plant i gymryd camau cynyddol o fewn eu dysgu. Yn benodol, dywedodd Lambert a Lines, (2000: t.139) er mwyn i ganmolïaeth bod yn effeithiol, dylai cael ei ystyried i fod yn ddeialog neu sgwrs rhwng yr athrawon a'r plant. Cefnogodd y darlleniad yma ein cwestiwn ymchwil a chefnogir hyn gan QCA (a welwyd yn Clarke, 2003: t.81) sydd yn datgan bod ansawdd deialog o fewn ganmolïaeth yn bwysig ac ymhellach, mae canmolïaeth ar lafar yn fwy effeithiol na chanmolïaeth ysgrifenedig. Fodd bynnag, dywed Pollard (2014: t286) gall cyflwyniad canmolïaeth wella a gallai fod yn llawer mwy manwl gywir.

Gall y math o adborth a roddir i blant effeithio ar gymhelliant, cyfeiriadedd, a phriodoledd. Canfuwyd bod adborth ar ffurf canmolïaeth ar gyfer gallu yn annog cyfeiriadedd nodau perfformiad, tra canfuwyd bod canmolïaeth i ymdrechion yn annog dysgu cyfeiriadedd nodau. Yn ôl Dweck (a welwyd yn Educational Horizons, 2010), nid yw plant sydd yn cael eu canmol am eu gwybodaeth a dealltwriaeth yn

dymuno edrych yn dwp. Maent yn poeni efallai nad ydynt mor ddeallus ag y mae pobl yn dweud wrthynt maen nhw. Felly maen nhw'n colli eu cymhelliant i roi cynnig ar dasgau anoddach ac yn hytrach maent yn dewis tasgau maen nhw'n gwybod y byddant yn llwyddo, ac yn cael eu diystyru gan fethiant. O ganlyniad felly maent yn osgoi heriau ac felly gallwn awgrymu bod yna agweddau negyddol o ganmoliaeth.

Gweler bod plant yn hoff o dderbyn canmoliaeth ac maent yn codi hyder y plant yn benodol os ydynt yn cael eu hadnabod am lwyddo. Ond, mae'n bwysig ystyried bod canmol yn effeithiol ac yn fwy nag cydnabod os mae'r plant yn gywir. Yn benodol, dywedodd Heritage (2010: t.13) bod rhaid i blant derbyn adborth disgrifiadol gan athrawon sydd yn berthnasol i statws eu dysgu gyda pherthynas i'r meini prawf llwyddiant. Mae'n hefyd yn bwysig i athrawon i adnabod y camau mae rhaid i'r plant cymryd er mwyn symud ymlaen er mwyn cau'r bwlch. Mae'n amlwg felly bod adborth yn fwyaf effeithiol pan mae'n digwydd yn naturiol ac yn ddidwyll, (Wheldall a Merret, 1989: t.54).

Fodd bynnag, er mwyn bod yn llwyddiannus trwy ganmol plant, mae hefyd angen gweithgaredd a chynnyrch. Dywed Black a William (1999) bod adborth yn debygol iawn o gael dylanwad dwys ar gymhelliant a hunan-barch plant, ac yn ôl Mujis a Reynolds (2011: t.131), maent hefyd yn gallu creu amgylchedd calonnog a cefnogol. Mewn sefyllfa benodol, mae'n rhaid cydnabod yr hyn sydd yn cael ei atgyfnerthu'n gadarnhaol ar gyfer y plant er mwyn rhoi adborth yn effeithiol. Ym mhellach, mae'n bwysig defnyddio'r wybodaeth benodol yma er mwyn lunio ymddygiadau cymdeithasol neu academiaidd dymunol, (Wheldall a Merrett, 1989: t.54).

Maent wedi dod i'r sylw bod llawer o athrawon yn ceisio defnyddio canmoliaeth fel ffurf o atgyfnerthu cadarnhaol er mwyn ysgogi plant i gyflawni ac ymddwyn yn gadarnhaol. Serch hynny, nodwyd gan Brophy (1981) bod ceisio defnyddio canmoliaeth fel atgyfnerthydd systematig mewn lleoliad ystafell ddosbarth yn anymarferol. Datgelodd ymchwil Brophy y realiti nad yw llawer o ganmoliaeth athrawon yn atgyfnerthu yn fwriadol, ond yn hytrach, mae'r myfyrwyr mewn gwirionedd yng nghyflwr yr athro i'w canmol. Yn yr un modd, dywed Stringer a Hurt

(1981) gall canmolïaeth leihau hunan-gymhellïant y plant ac achosi plant i ddibynnu ar wobrwyon. Canfodd Green a Lepper (1974), unwaith y dechreuodd athrawon ganmol plant am wneud rhywbeth yr oeddent eisoes wedi'i gymell i'w wneud, daeth y plant yn llai cymell i wneud y gweithgaredd. Mae'r llenyddiaeth yma yn gytûn gyda Hitz a Driscoll (1988) a Gordon (1989) sydd hefyd yn adnabod agweddau'r plant sydd ddim yn derbyn canmolïaeth, ac mae'r plant sydd yn derbyn canmolïaeth yn tyfu i ddibynnu ar ganmolïaeth a hyd yn oed yn gofyn amdano.

O ganlyniad, mae rhai ymchwilwyr yn cynnig bod athrawon yn canmol trwy wobrwyo. Mae McPhillimy (1996) yn nodi bod y lefel uwch o wobrwyon, megis gwobrwyon cynhenid, yn fwy addysgol yn well. Mae hon yn ffordd i'r athrawon i ddangos eu bod yn dal i sylwi a gwerthfawrogi ymdrechion y plant. Serch hynny, mae'n bwysig cydnabod nad yw pob plentyn yn canfod yr un mathau o wobr sy'n ysgogi ac felly mae'n bosibl y bydd angen ystyried sut mae angen addasu system wobrwyo sy'n gweithio'n fras ar gyfer y mwyafrif o blant, (Ellis and Tod, 2014: t.114). Gallai hyn olygu bod yr adborth positif yn fwy preifat. Gallai'r plant rhoi rhywfaint o wybodaeth am yr hyn y hoffwn ddigwydd pan fyddant wedi gwneud rhywbeth yn dda er mwyn helpu'r athrawon i addasu'r system wobrwyo.

Credodd Baranek (1996: t.3) pan roddir gwobrau, maent yn aml yn cael effaith groes yr hyn a fwriadwyd. Daw cyrhaeddiad uchel o blant sydd wedi'u cymell o'r tu mewn. Awgrymir felly, yn hytrach na rhoi gwobrau, mae angen i athrawon addysgu plant yn gyson i gael eu cymell yn gynhenid. Dylai athrawon felly adnewyddu gwobrau gan yr addysgu yma. Bydd angen ym mhellach sicrhau bod diddordeb y plant yn ganolog i'w ddysgu, (Baranek, 1996: t.4). Serch hynny, gall hyn fod yn heriol i athrawon oherwydd mae nifer o athrawon yn dibynnu ar wobrwyon a rhaglenni cymhellïant er mwyn rheoli ymddygiad a dysgu. Credir o'r holl wobrwyon a roddir, graddau yw'r wobr fwyaf cyffredin, (Seoane a Smink, 1991).

Methodoleg

Gan ystyried awgrymiadau Donaldson (2015), dylwn ddefnyddio tystiolaeth asesu ffurfiannol yn systematic ac ar y cyd a thystiolaeth arall o hysbysu hunan arfarniad ysgol megis arsylwadau ystafell dosbarth. Y fethodoleg a ddefnyddir yw ymchwil astudiaeth gwers sy'n fath o ymchwil gweithredu dosbarth sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth ymarfer athrawon, (Dudley, 2014). Fe'i defnyddiwyd yn Japan ers y 1870au, ac maent wedi bod yn effeithiol ers ni. Mae astudiaeth gwers yn cynnwys grwpiau o athrawon yn cynllunio ar y cyd, addysgu, arsylwi a dadansoddi dysgu ac addysgu mewn gwersi ymchwil. Maent yn cofnodi eu canfyddiadau ac yna, dros gylch o wersi ymchwil, gallant arloesi neu fireinio ymagwedd addysgeg a fydd yn gwella dysgu plant gan yna rhannu hyn gydag eraill trwy gyfrwng gwersi ymchwil cyhoeddus, a thrwy gyhoeddi papur sy'n amlinellu eu gwaith, (Dudley, 2014). Mae'n amlwg defnyddiwyd astudiaeth gwers yn llwyddiannus yn y wlad hon i wella technegau addysgu a chynnydd disgyblion mewn pynciau craidd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac i ddatblygu ymagweddau addysgol ehangach megis asesu ar gyfer dysgu. Peter Dudley wnaeth cyflwyno astudiaeth gwers i'r DU ac maent wedi dod yn ddull fethodoleg boblogaidd o fewn y DU. Credaf felly byddai defnyddio'r fethodoleg yma yn fuddiol i'r ymchwil yma.

Rydym yn defnyddio'r model astudiaeth gwers fel ffordd o ymchwilio oherwydd mae'n ddull ethnograffig o ymchwilio sydd yn seiliedig ar dystiolaeth. Yn ogystal, mae'n digwydd mewn ystafelloedd dosbarth go iawn gyda disgyblion go iawn, ac felly maent yn defnyddio llais y disgybl i ddatblygu ansawdd yr addysgu, (Dudley, 2014). Maent hefyd yn gydweithredol, heb farnu ac yn effeithiol iawn wrth fynd i'r afael â phlant sy'n tanberfformio, sydd ag anghenion penodol neu sy'n dod o grwpiau o ddysgwyr sydd fel arfer yn tangyflawni fel plant o gartrefi difreintiedig neu blant sy'n derbyn gofal, (Dudley, 2014). Mae'n annog myfyrio ar ddysgu ac addysgu gan bawb dan sylw, sy'n gwneud datblygiad proffesiynol parhaus. Mae yna nifer o ysgolion yn bwriadu parhau i ddefnyddio astudiaeth gwersi yn y dyfodol fel dull effeithiol o ddatblygu proffesiynol, (Pozsar, 2010). Yn ogystal â hyn, mae'n cynhyrchu canlyniadau bwriadol sydd o ganlyniad yn galluogi i athrawon i dargeddi, codi safonau,

asesu ac arsylwi er enghraifft. Awgrymir ESTYN (2014) bod arsylwadau dosbarth sydd yn gofyn am farnau, datblygu disgrifiadau dyfarniad a chymedroli yn sicrhau cysondeb.

Mae adfyfyrio yn ddull ysgrifenedig sydd yn galluogi i ymchwilyr i feddwl yn fyfyrion trwy brofi rhywbeth, meddwl ar y profiad a dysgu o'r profiad. Cafodd y myfyrdodau eu casglu gan ddefnyddio model adfyfyrio Gibbs (1988) sydd yn awgrymu defnyddio model chwe cham manylach lle mae'r pwyslais ar ddysgu trwy ailadrodd, (gweler atodiad 1). Mae'r chwe cham unigryw yma yn cynnwys disgrifio beth ddigwyddodd, disgrifio eich teimladau ac ymatebion emosiynol, gwerthuso beth aeth yn dda neu'n wael, dadansoddi, gwneud casgliadau cyffredinol a chreu cynllun gweithredu. Mae'r model adfyfyrio yma yn addas ar gyfer yr ymchwil yma oblegid mae'n galluogi i ni i feddwl mewn dyfnder ac yn pwysleisio ar ein teimladau.

Er mwyn casglu data ar gyfer yr ymchwil yma, defnyddir dulliau ansoddol. Mae dulliau ansoddol yn canolbwyntio ar safbwyntiau a gwybodaeth y plant mewn arferion pob dydd sydd yn cyfeirio at y pwnc penodol, (Flick, 2007: t.2). Felly, dylid defnyddio dulliau ansoddol yn briodol a dylent fod yn ddigon agored i ganiatáu dealltwriaeth o broses neu berthynas er enghraifft. Ar ben hynny, bydd yr astudiaeth yma yn canolbwyntio ar ddau ddull ymchwil yn benodol, gan fod triongiant, sef cymhwyso nifer o ddulliau ymchwil o fewn astudiaeth, yn dechneg bwerus sydd yn cynyddu dilysrwydd gwerthuso canfyddiadau ymchwil, (Yeasmin a Rahman, 2012). O ganlyniad, bydd hyn yn caniatáu canlyniadau dibynadwy. Felly byddwn yn casglu arsylwadau ac ymatebion y cyfranogwyr gan ddefnyddio graddfa Leuven a chyfweliadau lled-strwythedig er mwyn casglu data priodol. Yn ogystal, byddwn yn ysgrifennu nodiadau yn ystod y wers pan fo'n briodol.

Dulliau ymchwil 1

Mae'r raddfa Leuven yn fesur cyfranogiad plentyn mewn tasgau dosbarth a chafodd chwarae plant ei fesur (Stagnitti, 2007), ac fe'i cwblheir gan athro dosbarth yn

seiliedig ar eu sylwadau ar gyfranogiad y plentyn mewn gweithgareddau dosbarth. Bydd defnyddio'r dull yma felly yn galluogi i mi i ganolbwyntio ar y graddau y mae disgyblion yn gweithredu i'w galluoedd llawn. Yn benodol, mae'r raddfa yn cyfeirio at a yw'r plentyn yn canolbwyntio, yn ymgysylltu a diddordeb mewn amrywiol weithgareddau, (Stagnitti, 2007). Gall mesur lles a chyfranogiad plentyn hefyd rymuso athrawon ac ymarferwyr egnïol. Os gall addysgwyr weld bod eu hymdrechion yn arwain at lefel uchel o ran cynnwys lles yn eu disgyblion, yna mae'n debyg y bydd hyn yn gweithredu fel grym galfanig ac yn arwain at welliant parhaus.

Dulliau ymchwil 2

Mae cyfweiliadau lled-strwythuredig yn fodd amlbwrpas o gasglu data ac wedi'i ddewis fel dull ymchwil gan ei fod yn caniatáu i gyfranogwyr mynegi eu meddyliau personol a'u theimladau yn eu telerau eu hunain, gan hefyd eu hannog i siarad yn rhydd (Miles a Gilbert, 2005: t.65). Mae adeiladu cyfweiliadau yn cynnig safbwyntiau personol, gan ganiatáu cyfranogwyr i ehangu ond ar yr un pryd i ganolbwyntio hefyd ar y pwnc dan sylw. Awgrymodd McIntosh a Morse (2015) ymhellach fod cyfweiliadau lled-strwythuredig yn cael eu hannog i adnabod ymatebion personol gan gyfranogwyr mewn perthynas â sefyllfa neu ffenomen arbennig y maent wedi dod ar eu traws. Gellir casglu gwybodaeth ychwanegol hefyd trwy ddadansoddi tôn llais, mynegiant wyneb, seibiannau ac ymatebion eraill er enghraifft. Mae'n bwysig bod y cyfranogwyr yn ymwybodol eu bod yn rhan o broses sy'n bwriadu ysgogi rhyw fath o newid yn eu hagwedd neu eu hymddygiad. Wrth geisio dod o hyd i ddata, byddaf yn cyfweld a'r cyfranogwyr gan ofyn amrywiaeth o gwestiynau penodol er mwyn casglu gwybodaeth gynradd a fydd yn ganolog i'r casgliadau. Bydd y cyfweiliad lled-strwythuredig yma yn cynnwys cwestiynau agored a caeedig. Yn ôl Eder a Fingerson (2001), nod cyfweld yw gwahodd plant i gyflwyno eu safbwyntiau eu hunain, yn hytrach nag o safbwyntiau'r oedolion sy'n gwneud dehongliadau ar eu rhan. Fy nhasg i felly yw gwahodd y plant i gyflwyno eu safbwyntiau, cymryd eu barn o ddifrif a cheisio dod i'r afael â'r ddealltwriaeth hon a'u cyflwyno mewn ffordd sy'n cydnabod asiantaeth blentyn. Yn aml iawn, mae

ansawdd data'r cyfweiliad lled-strwythedig yn ddibynnol ar reoli'r rhyngweithio rhwng y cyfranogwyr a'r ymchwilydd. Byddaf yn defnyddio tap sain er mwyn cofnodi'r wybodaeth.

Cyfranogwyr

Ar gyfer yr ymchwil, dewiswyd tri phlentyn o'r oedran 3 i 4 a chwe phlentyn o'r oedran 6 i 7 o wahanol alluoedd ar gyfer y grŵp ffocws fel sampl er mwyn cael amryw o gyfranogwyr er mwyn casglu data mwy dibynadwy. Er mwyn cael sampl gynrychiadol o'r dosbarth mae'r cyfranogwyr hefyd yn cynnwys bechgyn a merched. O ganlyniad, wrth ystyried ein dadansoddiad cychwynnol, disgwylir casglu data a gwybodaeth ansoddol wahanol a fydd yn debygol o amrywio yn sylweddol o'r dosbarth meithrin a dosbarth 2. Dewiswyd y sampl trwy ystyried y gwahanol alluoedd a'r gwahanol ryw er mwyn gael casgliad o 9 cyfranogwyr gwahanol. Ar ben hynny, mae'r dull samplu hwn yn addysgiadol gan ei fod yn caniatáu i grŵp sampl bach fod yn ffocws yr astudiaeth, (Denscombe, 2007: t.61). Credir y bydd grŵp sampl bach yn cynnwys cyfranogwyr sy'n cael eu hystyried yn fwyaf tebygol o gynhyrchu'r data mwyaf gwerthfawr.

Materion Moeseg

Mae moeseg yn cyfeirio at reolau ymddygiad sydd yn debygol o gydymffurfio a chod neu set o egwyddorion, (Robson, 2002: t.65). Mae ystyriaethau moeseg wrth wneud ymchwil yn y dosbarth wedi'u nodi yn flaenorol yn y ffurflen foeseg. Mae hon yn weithdrefn bwysig sy'n hysbysu i'r Brifysgol yr ymchwil sy'n cael ei wneud. Mae taflen gwybodaeth a llythyr wedi cael ei dosbarthu i rieni'r plant er mwyn iddynt ddeall a'i lofnodi gan rieni'r cyfranogwyr. Darparwyd manylion llawn o'r ymchwil arfaethedig yn ogystal â'r dulliau ymchwil a'r pwyslais y gall cyfranogwyr ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Bydd y wybodaeth hanfodol hon yn caniatáu i'r cyfranogwyr dynnu'n ôl o'r astudiaeth heb orfod rhoi esboniad neu resymu dros eu penderfyniad. Felly, os yw cyfranogwr yn penderfynu tynnu'n ôl o'r astudiaeth, bydd yr holl ddata a gasglwyd yn cael ei ddileu o'r ymchwil a'i ddinistrio, (Cohen, Manion a Morrison,

2011). Bydd yna ddyddiad penodol i ddinistrio'r data sef ar ôl dyddiad cau derbyn fy ngwaith yn ôl, rhag ofn y byddaf yn methu a bydd gofyn i mi ail wneud yr aseiniad. Mae'n bwysig felly ystyried erthygl 12 sydd yn nodi y dylai plant gael llais mewn materion sydd yn effeithio arnynt, (UNCRC, 1989). Byddaf felly yn cydymffurfio a Datganiad Rheoli Data Ymchwil y Drindod Dewi Sant, 2018.

Er mwyn cynnal cyfrinachedd a phreifatrwydd pawb sy'n gysylltiedig, ni chaiff y cyfranogwyr eu hadnabod a bydd enw'r ysgolion y maent yn perthyn iddi yn parhau i fod yn ddienw. Dywed BERA (2011: t6) mae rhaid i ymchwilwyr gydnabod hawl y cyfranogwyr i breifatrwydd a rhaid iddynt roi eu hawliau i gyfrinachedd ac anhysbysrwydd iddynt, oni bai eu bod hwy neu eu gwarcheidwaid neu bobl eraill sy'n gyfrifol, yn benodol ac yn barod i waredu'r hawl honno. At hynny, mae caniatâd yn bwysig iawn o fewn unrhyw fath o ymchwil, ac awgrymir bod yr elfennau moesegol o fewn y canllawiau BERA yn cael eu hystyried yn ofalus cyn dechrau ymchwil i ddiogelu gwybodaeth bersonol cyfranogwyr. Cyn dechrau pob cyfweiliad, fe'u hatgoffwyd y cyfranogwyr am eu hawliau i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Drwy gydol yr ymchwil hon, fe wnaif barchu preifatrwydd pob cyfranogiad a chynnal cyfrinachedd a byddaf hefyd yn storio'r data a gesglir yn unol â chanllawiau BERA (2011).

Astudiaeth gwers 1

Cynhaliwyd y wers gyntaf yn Ysgol A o fewn dosbarth blwyddyn 2 ble mae yna 22 o blant. Dechreuodd y wers Fathemateg yma o fewn sesiwn cyntaf y dydd ac roedd yn parhau am awr. Nod y wers yma oedd mesur yn defnyddio cm. Rhannwyd y dosbarth mewn i bedwar grŵp, sef grwpiau galluoedd, a chafodd gwahanol weithgareddau eu paratoi ar gyfer eu gallu. Roedd gofyn i grŵp 1 i ddarganfod gwahanol fesuriadau gan ddefnyddio toes. Felly, roeddent yn dysgu trwy arbrofi a trwy dreial a gwall. Roedd yn dasg synhwyrdd hefyd felly roeddent yn torri a siapio'r toes i gynrychioli'r mesuriad penodol mewn cm. Er mwyn cynnwys cymhwysedd digidol, roedd grŵp 2 yn defnyddio'r iPads i chwarae gem mesur le oeddent yn defnyddio'r sgil o ddarllen a chofnodi mesuriadau ac i wneud cysylltiadau er mwyn dod o hyd i'r ateb cywir.

Roedd y gêm yn hysbysu pan roeddent yn anghywir felly, roeddent wedyn yn defnyddio sgiliau meddwl er mwyn ceisio eto. Defnyddiodd grŵp 3 pegiau sŵn i gysylltu mesuriadau ar lafar i fesuriadau ysgrifenedig ar y pren mesur. Roedd y pegiau sŵn wedi eu labelu o 1 i 8, ac felly roedd peg sŵn rhif 1 yn cyhoeddi'r mesuriad wrth i'r plant gwasgu'r botwm chwarae. Yna, roedd rhaid iddynt dynnu llinell gan ddefnyddio pren mesur ar bwys rhif un a oedd yr un mesuriad a'r hyn roedd y peg sŵn yn nodi ac yn y blaen. Roedd grŵp 4 felly, sef y grŵp tasg ffocws yn amcangyfrif mesuriadau gwrthrychau yn y dosbarth ac yna ei wirio. Yn ymestynol, roedd rhaid iddynt wedyn darganfod amrediad gan dynnu mesuriad y gwrthrych lleiaf o fesuriad y gwrthrych hiraf.

Er mwyn wella'r wers, gall y cyflwyniad wedi cynnwys mwy o weithgareddau ymarferol er mwyn gwella eu parodrwydd i ddysgu'n annibynnol. Hefyd gall esbonio'r tasgau cyn i'r plant gadael y carped gwella rheolaeth dosbarth gan hefyd chynnal eu crynodiad, gan hefyd arbed amser yn ystod y wers. O ganlyniad, oherwydd roedd yr athrawes yn brysur yn esbonio tasgau i grwpiau yn unigol yn ystod y prif weithgaredd, collodd y cyfle i ganmol y rhai oedd ati'n gwneud y gwaith yn annibynnol. Hefyd, awgrymaf fod y tasgau wedi amseru'n effeithiol er mwyn bod pawb yn gorffen yr un amser. O ganlyniad, gallaf hyn wedi galluogi amser i ddangos esiamplau da o fewn pob grŵp i weddill y dosbarth.

Ar ôl adlewyrchu ar y wers, mae'n amlwg mae angen i ni addasu ein dulliau ymchwil i gasglu tystiolaeth well trwy yn gyntaf ffilmio'r wers gyda chaniatâd rhieni plant y dosbarth. Byddai gwneud hyn wedi galluogi i ni ganolbwyntio ar arsylwi un plentyn ar y tro. Roedd cydbwyso arsylwi tri phlentyn ar amseroedd penodol wedi atal ni rhag gwneud arsylwadau dilys ar y tri phlentyn. O ganlyniad, roedd ein ffocws ar yr amser penodol ar un plentyn yn hytrach na'r tri phlentyn ar yr un pryd, (gweler atodiad 2). Wrth edrych nôl, ar gyfer y wers nesaf, gallwn neilltuo amseroedd gwahanol ar gyfer y tri phlentyn. Yn ogystal, roeddwn wedi recordio'r cyfweiliad yn yr ystafell dosbarth ac roedd nifer o blant wedi dod mewn i'r dosbarth er mwyn cael mynediad i'r buarth oherwydd roedd yn amser chwarae. Mae'n amlwg felly gall

llawer o sŵn cefndirol cael ei chodi'n hawdd ar y recordiad a gall effeithio ar eglurder yr hyn a ddywedir. Mae hyn yn gwrthwynebu Bell (2005) sydd yn honni y dylai cofnodi llais ganiataú i'r cyfwelydd ganolbwyntio ar y cyfranogwyr. Yn ffodus nid oedd hyn wedi amharu ar y recordiad, ond er mwyn goresgyn y broblem hon a gwella'r casgliad o ddata ymhellach, byddwn yn cymryd nodiadau hefyd er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei chasglu a'i gefnogi.

Astudiaeth gwers 2

Cynhaliwyd yr ail wers yn Ysgol B o fewn dosbarth meithrin gyda phlant y bore ble mae yna 32 o blant. Dechreuodd y wers laith yma o fewn sesiwn cyntaf y dydd ac roedd yn parhau am awr. Nod y wers oedd defnyddio llythrennau i ffurfio geiriau tric a chlic. Roedd gofyn i'r grŵp tasg ffocws felly i ddarganfod llythrennau ar flodau a oedd wedi ei lamineiddio a oedd yn cuddio yn wahanol ardaloedd yn yr amgylchedd allanol, sef y buarth, ac yna dychwelyd y llythrennau i'r bwrdd bedol yn y dosbarth. Yna, roedd rhaid iddynt ddod o hyd i'r llythrennau priodol er mwyn yna ffurfio geiriau tric a chlic megis map, bath, tap ac yn y blaen. Unwaith roedd y plant wedi dod o hyd i'r llythyren a oedd yn cysylltu gyda'r llythyren ar lafar, yn ysgrifenedig a'r symudiad, roeddent yna yn plannu'r blodyn gan ddefnyddio llun o bot blodyn wedi ei lamineiddio. Ar ddiwedd y dasg felly, roedd pob pot blodyn yn cynnwys llythrennau'r gair mewn trefn. Yn ymestynnol felly, roedd gofyn i'r plant yna i ysgrifennu'r gair ar ei phot blodyn gan ddefnyddio pen marciwr. Roedd y dasg yma wedi galluogi iddynt i feddwl yn annibynnol, defnyddio treial a gwall, i ddysgu yn yr awyr agored, a hefyd i ddefnyddio gwybodaeth flaenorol i ffurfio llythrennau gan ei fod yn gyfarwydd â'r llythrennau a ddefnyddiwyd o fewn sesiynau clonc. O fewn y gweithgaredd cyfoethogi gydag oedolyn 1, roedd rhaid i'r plant i dorri a gludo i greu Cenhinen. Er mwyn llwyddo, roedd rhaid iddynt fodelu'r cynorthwyydd a hefyd defnyddio sgiliau echddygol manwl. Ar gyfer y gweithgaredd cyfoethogi gydag oedolyn 2, roedd rhaid i'r plant i ddefnyddio sgiliau echddygol bras i greu dawns gwerin. O ganlyniad felly, roeddent yn defnyddio gwahanol rannau o'r corff, defnyddio cyd-drefniant, defnyddio cydbwysedd, defnyddio sgiliau rhifedd i gyfri'r camau a hefyd gwneud cysylltiadau rhwng symudiad gyda chyfarwyddiadau.

Er mwyn gwella'r wers, byddai gwneud gweithgaredd poethi wedi bod yn fuddiol er mwyn helpu rheolaeth dosbarth yn ystod y cyflwyniad. Yn ogystal, byddai gwneud gweithgaredd poethi wedi agor cyfleoedd i ddefnyddio mwy o strategaethau canmoliaeth. Yn ystod y cyflwyniad hefyd, gall atgoffa'r plant o'r wahanol ardaloedd wedi gwella rheolaeth dosbarth yn ystod y wers. O ganlyniad, byddai hyn hefyd wedi lleihau'r amser maent yn cymryd i dacluso. Yn yr un modd, byddai cyfri yn ystod amser tacluso yn lle rhoi'r amser ydd bom ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol wedi hefyd gwella rheolaeth dosbarth gan fod hyn wedi cynhyrfu'r plant ar gyfer y diweddglu gan nad oeddent yn canolbwyntio. Awgrymir hefyd yn ystod y prif weithgaredd i ddefnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu megis goleuadau traffig er mwyn hybu dealltwriaeth y plant.

Ar ôl ystyried beth wnaethon ni dysgu o brofiad y wers gyntaf, er mwyn arsylwi'r plant ffocws yn effeithiol, wnaethon ni addasu ein dulliau ymchwil er mwyn gasglu tystiolaeth well. Defnyddio'n ni'r raddfa Leuven, ond yn hytrach na arsylwi'r tri phlentyn ar yr un pryd, wnaethon ni arsylwi ar un plentyn gwahanol pob pum munud. Roedd hyn felly yn meddwl gallwn ni ffocysu ar un plentyn ar y tro, ac o ganlyniad, graddio'r plentyn yn fwy dilys a dibynadwy (gweler atodiad 2). Nid oedd yn angenrheidiol i ysgrifennu nodiadau yn ystod y cyfweliad oherwydd fe'i cynhaliwyd yn ystafell dosbarth gwag.

Astudiaeth gwers 3

Cynhaliwyd y drydedd wers yn Ysgol B o fewn dosbarth 2 ble mae yna 33 o blant. Dechreuodd y wers laith yma o fewn sesiwn cyntaf y prynhawn ac roedd yn parhau am awr. Nod y wers oedd deall a defnyddio idiomau yn gywir. Roedd gofyn i bawb i ysgrifennu 3 brawddeg yn ei llyfrau a oedd yn cynnwys idiom o fewn y cyd-destun cywir. Roedd rhaid i'r plant felly cysylltu idiomau gyda'i hystyrion gan yna ysgrifennu brawddegau ar stori Branwen gan gynnwys yr idiomau yma. Roedd ganddyn nhw fat geirfa er mwyn helpu iddynt sillafu'r geiriau. Wrth wneud y meini prawf llwyddiant ar ddiwedd y wers, gwelwn fod pawb wedi deall a chyrraedd nod y wers. Roedd hyn

yn amlwg oherwydd dewison nhw'r goleuadau traffig gwyrdd. Roedd y grŵp ffocws gyda'r un nod a gwelwn ei fod yn gallu meddwl yn annibynnol, yn gallu gwneud cysylltiadau rhwng yr adnoddau a'r gwaith gorffenedig, dilyn cyfarwyddiadau, defnyddio gwybodaeth flaenorol ac adeiladu ar y wybodaeth hon, a hefyd modelu'r athrawes. Ar gyfer cyfoethogi yn yr hafan, roedd rhaid i'r plant i gysylltu idiomau gyda lluniau ar hwb. Felly, roeddent yn meddwl yn annibynnol, yn defnyddio sgiliau TGCh, defnyddio gwybodaeth flaenorol ac adeiladu ar y wybodaeth hon a modelu'r cynorthwydd.

Er mwyn diwygio'r wers ar gyfer y dosbarth nesaf neu ar gyfer dysgu yn y dyfodol byddai amrywio'r cyflwyniad wedi bod yn fuddiol er mwyn cynnal diddordeb y plant a'u parodrwydd y plant i ddysgu. Er mwyn gwella rheoli dosbarth, byddai atgoffa'r plant o reolau'r dosbarth yn ystod y cyflwyniad wedi atgyfnerthu ymddygiad da yn ystod y wers. Felly, yn hytrach na ffocysu ar ymddygiad gwael y plant, byddai canmol ymddygiad da yn lle wedi modelu i'r plant nad oedd yn ymddwyn yn dda beth yw esiampol dda.

Wrth adlewyrchu ar y wers yma, mae'n amlwg bod y mathau o gwestiynau a ofynnwyd yn ystod y cyfweiliad yn bwysig er mwyn gasglu gwybodaeth a thystiolaeth well. Ar ôl amhell gwestiwn, nid oedd y plant wedi rhoi ateb a oedd yn berthnasol i'r cwestiwn, felly roedd rhaid bod yn hyblyg er mwyn aralleirio'r cwestiwn er mwyn ei wneud yn fwy deallus i'r plant. Yn aml mae'n broblem os yw'r cyfranogwyr yn ymateb yn wahanol yn unol â pha mor gyfforddus y maent yn ei deimlo o gwmpas y cyfwelydd, (Denscombe, 2007). Felly, yn ystod y cyfweiliad yma, cymerwyd mesurau er mwyn caniatáu i'r cyfranogwyr deimlo'n gyfforddus trwy gael nhw i eistedd ar sachau eistedd. Ond oherwydd sŵn y sachau eistedd, roeddwn wedi ysgrifennu nodiadau yn syth ar ôl y cyfweiliad o'r recordiad er mwyn sicrhau ein bod wedi cofnodi popeth rhag ofn bod yna anhawster yn y dyfodol gwrando ar y recordiad gyda sŵn y sachau eistedd yn y cefndir. Hefyd, ar ôl ystyried beth wnaethon ni dysgu o brofiad y gwersi blaenorol, roeddwn wedi parhau i ddefnyddio'r raddfa Leuven trwy arsylwi ar un plentyn gwahanol pob pum munud, (gweler atodiad 2).

Canfyddiadau

Mae'n amlwg bod ystyr gwahanol i ganmoliaeth rhwng plant meithrin a phlant blwyddyn 2, er bod y ddau ddosbarth yn hoff o dderbyn canmoliaeth. Roedd cyfweld a phlant 3 i 4 mlwydd oed yn Ysgol B yn heriol iawn ac mae'n debygol nad oeddent yn deall cynnwys y cwestiynau. Serch hynny, roedd yn amlwg ei fod yn hoff o ganmoliaeth, yn enwedig canmoliaeth weledol (gweler atodiad 3). Dywed un plentyn:

Plentyn 1- "Fi'n hoffi pan mae Miss yn dweud da iawn a rhoi pegiau i fyny."

Yn yr un modd, roedd plentyn 2 a phlentyn 3 yn gytûn gyda hyn. Mae hyn wedi'i gefnogi gan McPhillimy (1996) sydd yn datgan bod gwobrwyo effeithiol yn fwy addysgol yn well. Credir ei fod yn ffordd effeithiol i'r athrawon i ddenu sylw at ymdrechion plant sydd ym mhellach yn dangos ei fod yn gwerthfawrogi gwaith, atebion neu ymddygiad y plant. Gweler hefyd, bod gwell gyda nhw sticeri na derbyn canmoliaeth ar lafar megis da iawn er enghraifft. Rheswm dros hyn yn ôl plentyn 2 yw oherwydd maent yn gallu rhannu gwobrwyau gyda'i theulu (gweler atodiad 3). Dywedodd:

Plentyn 2- "Achos fi'n hoffi dangos e i Mami a Dadi."

Mae hyn felly yn cyfateb gydag ambell ffynhonnell rwyf wedi darllen a chynnwys yn fy adolygiad llenyddiaeth. Gweler hefyd bod plant blwyddyn 2 sydd hefyd yn Ysgol B yn hoff o gael ei wobrwyo yn lle derbyn canmoliaeth ar lafar, (gweler atodiad 3). Roedd y mwyafrif o blant yn hoffi sticeri yn fwy na chanmoliaeth ar lafar ac roedd y plant i gyd yn hoffi cragen yn y pot, sef system wobrwyo unigryw'r athrawes, yn well na chanmoliaeth ar lafar. Dywed y plentyn a oedd well derbyn canmoliaeth ar lafar na chael sticeri bod derbyn canmoliaeth ar lafar yn gwneud iddi deimlo'n hapus. Dywed hefyd bod canmoliaeth ar lafar yn fwy pendant:

Plentyn 1- "Achos mae sticers yn gallu cwmpo bant."

Ar y llaw arall, mae hyn yn anghytuno gyda'r plant blwyddyn 2 o Ysgol A oherwydd roedd ei ymateb yn cyfateb gyda'r hyn sydd yn cael ei datgan yn y cwestiwn ymchwil (gweler atodiad 3). Dywed un plentyn bod ateb cwestiynau a derbyn canmoliaeth ar lafar yn fuddiol. Dywed:


Plentyn 1- "Achos ma fe'n helpu ni i ddysgu, achos os ni'n dweud y peth anghywir ma fen helpu ni achos mae Miss wedyn yn dweud dim cweit ac wedyn ni'n gorfod meddwl eto yn lle bod rhaid i ni feddwl ar y bwrdd, nhin meddwl ar y carped cyn bo ni'n neud rhywbeth arall, achos pryd nhin ateb cwestiynau ma Miss yn dweud pryd ni'n anghywir a ni'n gwybod wedyn taw dim hwnna ni'n ysgrifennu lawr ar gwaith ni."

Esboniodd ym mhellach bod well da nhw bod Miss yn dweud wrthyn nhw pan maent wedi dweud yn dda yn fwy na chael sticeri oherwydd:

Plentyn 1- 'Achos mae sticeri yn dweud wrtho ni, pryd nhin mynd adre wedyn mae Mam fel pam chi gyda sticeri? Pryd ni ddim yn cael sticeri fi'n proud o'n hunain achos mae Miss yn dweud wrtho fi pam fi wedi gwneud yn dda.'

Mae'n amlwg felly eu bod yn gwerthfawrogi canmoliaeth ar lafar yn fwy oherwydd mae dweud da iawn er enghraifft yn esbonio i'r plant pam neu sut maent wedi gwneud yn dda. Maent yn ymwybodol felly beth sydd angen iddyn nhw wneud tro nesaf er mwyn parhau i wneud gwaith da. Credir felly bod sticeri neu systemau gwobrwyo yn rhywbeth i ddangos i deulu neu ffrindiau yn unig.


Siart i ddangos hoffter y plant ynglyn a ddulliau ganmoliaeth




(Ffigur 1)

Mae'n amlwg felly bod gwell gyda phlant yn y cyfnod Sylfaen derbyn gwobrwyo fel dull o ganmoliaeth er mwyn gwella eu hymglymiad o fewn gwersi. Wrth ystyried y raddfa Leuven (gweler atodiad 2), gallwn hefyd weld bod ymglymiad mwyafrif y plant yn well yn ystod y prif weithgaredd ble bydden nhw yn flaenorol wedi derbyn canmoliaeth ar lafar yn ystod y cyflwyniad, a hefyd yn derbyn canmoliaeth wrth iddynt wneud y dasg ffocws. Gweler y ffigurau canlynol:


Astudiaeth gwers 1



(Ffigur 2)

Astudiaeth gwers 2

(Ffigwr 3)

Astudiaeth gwers 3

(Ffigwr 4)

Gallwn awgrymu felly byddai cyfuno canmolïaeth ar lafar a gwobrwyo yn fwyaf effeithiol er mwyn wella ymglymiad plant mewn gwersi mewn ystafell dosbarth Cyfnod Sylfaen.

Casgliad

Er mwyn astudio'r gwersi ymchwil yn feirniadol, gallwn ddadlau nid yw'r dulliau o gasglu ymchwil a ddefnyddiwyd yn ddibynadwy. Mae yna nifer o ddamcaniaethau bias sydd yn cefnogi hyn. Er enghraifft, mae damcaniaeth anghyseinedd Festinger (1957) yn honni bod gan ymchwilwyr ymgyrch fewnol i ddal ein holl agweddau a chredoau mewn cytgorod ac osgoi unrhyw anghytundeb. Gallwn hefyd dadlau dilysrwydd y dulliau yma oherwydd yn ôl damcaniaeth gytgorod Osgood a Tannenbaum (1955), os oes yna ddau gysyniad gwrthddweud y mae'n rhaid i un arsylwr wneud dyfarniad arno, bydd yr arsylwr yn teimlo pwysau i newid ei farn ar un o'r ochrau. Wrth ystyried hyn, roeddwn am ganfod bod canmoliaeth ar lafar yn cael gwell effaith ar ymglymiad plant na gwobrwyo.

Serch hynny, defnyddiwyd cydblethiad o ddulliau arsylwi strwythuredig a dulliau heb strwythur, felly gallwn ddadlau bod y dulliau yma yn ddibynadwy oherwydd wrth wneud astudiaeth gwers mewn grwp o dri, roedd hyn yn galluogi i ni i weld pethau neu ymddygiadau a all ddianc o ymwybyddiaeth ymwybodol. Roedd defnyddio'r dulliau hyn felly yn caniatáu i ni i dynnu sylw at bethau neu ymddygiadau efallai y bydd yr athrawes wedi rhoi'r gorau i roi sylw iddo. Ym mhellach, roedd defnyddio'r dull o arsylwi, sydd yn broses systematig o gofnodi patrymau mewn ymddygiad ynglŷn â phobl, gwrthrychau a digwyddiadau yn rhoi ystod eang o ddata i ni. Roedd casglu data trwy ffynonellau data cynradd, sef arsylwi, cyfweiliadau a grwpiau ffocws; wrth ochr ffynonellau data eilaidd, sef llenyddiaeth a siarad â'r athrawes dosbarth, wedi caniatáu i ni i gasglu data dibynadwy. Credir hefyd y gallwn gyffredinolï'r canfyddiadau oherwydd cymysgedd y sampl, er hynny, prin yw'r dystiolaeth yng Nghymru ac felly awgrymir ein bod yn gwneud ymchwil pellach o fewn y maes yma er mwyn casglu data mwy dilys a dibynadwy.

Wrth adlewyrchu hefyd ar yr adolygiad llenyddiaeth, gweler eu bod yn cynnwys nifer o lyfrau sydd wedi dechrau neu sydd wedi dyddio. Maent yn hefyd bwysig i ystyried bod y llyfrau diweddar yn cymryd blynyddoedd i ysgrifennu. Felly, efallai byddai defnyddio mwy o erthyglau yn fwy priodol ar gyfer yr ymchwil yma.

Er mwyn symud ymlaen, byddaf yn dymuno gwella dilysrwydd a dibynadwyedd yr ymchwil trwy beilotio, sydd yn astudiaeth a gynhaliwyd ymlaen llaw sy'n profi a ellir gwella'r cynllun ymchwil. Mae hyn yn caniatáu gwneud addasiadau cyn y dyluniad terfynol a hefyd mae'n gyfle i hyfforddi'r arsylwyr trwy ymarfer. Byddaf hefyd yn addasu hyd yr arsylwadau i fod yn gyfnod cyfyngedig i gyd-fynd ag oed y plant er mwyn cynhyrchu data mwy dibynadwy. Yn ogystal, gallai peth o'r data a gasglwyd fod yn gamarweiniol oherwydd maint y sampl bach, felly awgrymir bod ymchwil yn y dyfodol yn cynnwys maint sampl mwy er mwyn gwella dilysrwydd a dibynadwyedd. Rheswm dros ddefnyddio maint sampl bach ar gyfer yr ymchwil yma oedd oherwydd amser a chost gyfyngedig. Felly i symud ymlaen, byddwn yn sicrhau bod gennym fwy o amser a chostau i wneud yr ymchwil. Yn arwain ymlaen o hyn, byddai defnyddio sampl sydd o dri gwahanol ysgol yn creu sampl fwy cynrychiadol. Byddai defnyddio ysgolion o wahanol ardaloedd yng Nghymru, er enghraifft ysgol yng Ngogledd Cymru, Gorllewin Cymru a Dwyrain Cymru yn cynrychioli Cymru yn well.

Yn fy mhrofiad nesaf i ysgol, byddaf yn sicrhau fy mod yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau canmolïaeth gan fod yna barn gymysg o ba ddulliau canmolïaeth sydd yn effeithiol ar gyfer wella ymglymiad plant. Yn ogystal, gallwn wedi cyd-gynllunio er mwyn sicrhau bod yna llawer o gyfleoedd i ddefnyddio dulliau canmolïaeth er mwyn dod o hyd i gasgliad amrywiol o ddata.

Pe bawn yn wneud y wers hon eto, byddwn i'n cynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer gweithgaredd poethi yn y cyflwyniad er mwyn agor cyfleoedd i ddefnyddio mwy o strategaethau canmolïaeth. Byddai atgoffa'r plant o reolau'r dosbarth yn ystod cyflwyniadau yn y dyfodol yn atgyfnerthu ymddygiad da ac o ganlyniad hefyd agor cyfleoedd i ddefnyddio mwy o strategaethau canmolïaeth. Hefyd gall esbonio'r tasgau yn ystod y cyflwyniad arbed amser yn ystod prif weithgaredd y wers. O ganlyniad, gall hyn caniatáu amser i ganmol y rhai sydd ati'n gwneud y gwaith yn annibynnol. Mae'n amlwg felly bod angen ystyried cynllunio'r cyflwyniad yn effeithiol ar gyfer tro nesaf.

Argymhellion

I grynhoi, defnyddiwyd arfer da wrth weithredu'r ymchwil trwy ddefnyddio triongliant gan gymhwyso'r dulliau ymchwil megis graddfa Leuven a chyfweliadau lled-strwythedig. Roedd defnyddio triongliant felly yn cynyddu dilysrwydd gwerthuso canfyddiadau'r ymchwil. Serch hynny, yng ngoleuni'r ymchwil, er mwyn datblygu'r canfyddiadau i lywio ymchwil pellach, awgryma yn gyntaf ein bod yn adolygu'r dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd. Er enghraifft, byddai addasu'r daflen arsylwi sydd yn seiliedig ar raddfa Leuven i gael gwagle i gofnodi sylwadau pellach yn gwella dilysrwydd y data a gasglwyd. Felly, yn lle nodi'r rhif penodol i gynrychioli pob plentyn, byddai addasu'r daflen arsylwi yn fwy effeithiol er mwyn casglu canfyddiadau mwy dilys ac ym mhellach yn galluogi i ni ehangu lle bo'n briodol.

Pe bawn i'n ymchwilio i astudiaeth gwers eto, byddwn i'n hefyd yn recordio neu ffilmio'r wers er mwyn sicrhau cofnodion mwy dibynadwy. Bydd hyn hefyd yn galluogi i ni gasglu mwy o dystiolaeth ac yn sicrhau nad ydyn yn colli unrhyw wybodaeth, ymddygiadau neu arsylwadau pwysig a fydd yn fuddiol i'r ymchwil. Byddwn hefyd yn cynllunio'n fwy effeithiol er mwyn sicrhau bod yna nifer o gyfleoedd i ddefnyddio dulliau canmoliaeth a fydd o ganlyniad yn gwella dilysrwydd a dibynadwyedd y canfyddiadau. Er mwyn symud ymlaen, byddaf yn gwneud astudiaeth beilot o flaen llaw er mwyn cynhyrchu ymchwil fwy effeithiol. Byddai hyn yn caniatáu i unrhyw newidiadau angenrheidiol gael eu gwneud cyn cynnal yr astudiaeth ac o ganlyniad, gallwn gasglu data ansoddol goddrychol a gwrthrychol. Golygir hyn y gall arsylwadau a mesuriadau cael eu gwneud yn oddrychol a hefyd yn wrthrychol a'u hailadrodd gan ymchwilwyr eraill.

Nifer o eiriau: 6,327

Cyfeiriadau

Aveyard, H. (2010) *Doing A Literature Review In Health And Social Care: A Practical Guide*. Berkshire: McGraw-Hill Education.

Baranek, L. (1996) 'The Effect of Rewards and Motivation on Student Achievement.' Masters Thesis. Grand Valley State University.

Bell, J. (2005) *Doing your research project: A guide for first-time researchers in education, Health and social science*. 4th ed. Maiden Head: Open University Press.

BERA. (2011) Ethical guidelines for educational research. Available at: <https://www.bera.ac.uk/wpcontent/uploads/2014/02/BERA-Ethical-Guidelines-2011.pdf>. (Accessed 20th Feb 2019).

Black, P. and William, D. (1999) *Assessment for Learning: Beyond the Black Box*. Cambridge: University of Cambridge School of Education.

Brophy, J.E. (1981) 'Teacher Praise: A Functional Analysis.' *REVIEW OF EDUCATIONAL RESEARCH*, 51(1), pp. 5-32.

Clarke, S. (2003) *Enriching Feedback in the Primary Classroom*. London: Hodder and Stoughton.

Cohen, L. Manion, L. and Morrison, K. (2011) *Research Methods in Education*. 7th ed. Oxon: Routledge.

Denscombe, M. (2007) *The Good Research Guide: For Smallscale Social Research Projects*. 3rd ed. Maidenhead: Open University Press.

Donaldson, G. (2015) *Successful Futures: Independent Review of Curriculum and Assessment Arrangements in Wales*. UK: OGL.

Dudley, P. (2014) *Lesson Study: Professional learning for our time*. London: Routledge.

Eder, D. and Fingerson, L. (2001) *Interviewing children and adolescents*. In: Gubrium, J. F. and Holstein, J. (2001) *A Handbook of Interview Research*. London: SAGE.

Educational Horizons. (2012) 'Mindsets: How to Motivate Students (And Yourself)'. *Educational Horizons*, 91(2), pp. 16-21.

Ellis, S. and Tod, J (2014) *Promoting Behaviour for Learning in the Classroom*. Oxon: Routledge.

Ellis, S. and Tod, J. (2015) *Promoting behaviour for learning in the classroom effective strategies, personal style and professionalism*. Oxon: Routledge.

ESTYN. (2014) *Effective classroom observation in primary and secondary schools*. Available at: <https://www.estyn.gov.wales/thematic-reports/effective-classroom-observation-primary-and-secondary-schools-training-material>. (Accessed 27th Feb 2019).

Festinger, L. (1957) *A theory of cognitive dissonance*. Stanford, CA: Stanford University Press.

Flick, U. (2007) *Designing Qualitative Research*. London: Sage.

Gibbs, G. (1988) *Learning by Doing: A guide to teaching and learning methods*. Further Education Unit. Oxford: Oxford Polytechnic.

Gordon, T. (1974) *T.E.T. Teacher effectiveness training*. New York: David McKay.

Green, D. and Lepper, M.R. (1974) 'How to Turn Play Into Work.' *PSYCHOLOGY TODAY*, 8(4), pp. 49-54.

Heritage, M. (2010) *Formative assessment making it happen in the classroom*. London: SAGE.

Hitz, R. and Driscoll, A. (1988) 'Praise or encouragement? New insights into praise: Implications for early childhood teachers'. *Young Children*, pp. 6-13.

Lambert, D. and Lines, D. (2000) *Understanding Assessment*. London: Routledge Falmer.

McIntosh, M. J. and Morse, J. M. (2015) 'Situating and Constructing Diversity in Semi-Structured Interviews'. *Global Qualitative Nursing Research*, 2(1), pp. 1–12.

McPhillimy, B. (1996). *Controlling your class*. Chichester: Wiley.

Miles, J. and Gilbert, P. (2005) *A Handbook of Research Methods for Clinical and Health Psychology*. Oxford: Oxford University Press.

Mujis, D. and Reynolds, D. (2011) *Effective Teaching: Evidence and Practice*. 3rd ed. London: SAGE.

Osgood, C. E. and Tannenbaum, P. H. (1955) 'The principle of congruity in the prediction of attitude change'. *Psychological Review*, 62(1), pp. 42-55.

Petty, G. (2006) *Evidence-based teaching: a practical approach*. Cheltenham: Nelson Thornes.

Pollard, A. (2014) *Reflective Teaching in Schools*. 4th ed. London: Bloomsbury.

Pozsar, L. (2010) *Essex LA strategy support teacher programme: Using Lesson Study to improve practice and progression*. UK: Crown.

Robson, C. (2002) *Real World Research*. 2nd ed. Oxford: Blackwell.

Seoane, M. and Smink, J. (1991) *Incentives and education: A series of solutions and strategies*. National Dropout Prevention Center, Clemson, SC: National Center for Research on Teacher Learning.

Stagnitti, K. (2007) *Child-Initiated Pretend Play Assessment (ChIPPA) manual and kit*. Melbourne: Coordinates Publications.

Stringer, B. R. and Hurt, H.T. (1981) To praise or not to praise: factors to consider before utilizing praise as a reinforcing device in the classroom community process. Paper presented at the annual meeting of the Southern Speech Communications Association, Austin, Texas.

United Nations. (1989) *United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC)*. Geneva: United Nations.

Wheldall, K. and Merrett, F. (1989) *Positive Teaching*. London: Paul Chapman Publishing.

Yeasmin, S. and Rahman, K. F. (2012) 'Triangulation Research Method as the Tool of Social Science Research'. *BUP Journal*, 1(1), pp. 154-163.